COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ionawr 8fed, 2020 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Alun Jones, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Wyn Griffiths, William B. Williams

ABSENNOL

Erfyl W. Roberts

Croesawodd y Cadeirydd, yn arbennig Cyng. Alun Jones i'r cyfarfod, a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr John G. Jones a Dylan Llwyd fuddiant yng nghais cynllunio C19/1106/39/LL Trosi ac ymestyn ysgubor amaethyddol bresennol yn siop fferm a chaffi - Bodlondeb, Lôn Sarn Bach, Sarn Bach oherwydd bod yr ymgeisydd yn berthynas teuluol a thenant pori.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 11eg, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C19/1106/39/LL	Trosi ac ymestyn ysgubor amaethyddol bresennol yn siop fferm a chaffi – Bodlondeb, Lôn Sarn Bach, Sarn Bach **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – JGJ, DLL]**
C19/1122/39/LL	Ail-leoli pedair llain carafán gwyliau presennol (dim cynnydd yn nifer y lleiniau), estyniad bychan i'r safle, ynghyd â thirlunio a gwelliannau amgylcheddol – Tal-y-fan Caravan Park, Llanbedrog – **Cefnogir**
C19/1125/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio C05D/0220/39/LL er mwyn caniatáu dau dŷ unllawr ar leiniau 3 a 4 – Bryn Hedd, Mynytho – **Cefnogir. Er hynny, gofynnwyd, gan nad oes gan y Cyngor hawl drafod/anfon sylwadau ar gais sy'n diweddu ag AC [amod cynllunio?] ai LL ddylai hwn fod o ystyried**

	mai "Gwrthodwyd oherwydd bod angen CAIS CYNLLUNIO LLAWN" oedd dyfarniad cais C19/1003/39/DA?
C19/1126/39/DT	Codi estyniad unllawr – Ocean Crossing, Fferm Bwlchtocyn, Bwlchtocyn **– Cefnogir**
C19/1153/39/DT	Estyniad deulawr ochr i gymryd lle estyniad unllawr ochr a modurdy – Bryn Eithin, Mynytho **– Cefnogir**
C19/1157/39/DT	Adeiladu estyniad ochr i'r annedd, ynghyd â modurdy dwbl ar wahân – Crib y Gwynt, Lôn Garreg, Mynytho **– Cefnogir**
C19/1158/39/DT	Ffenestr gromen cefn a ffenestri to blaen (Ailgyflwyniad o gais cynllunio C19/0563/39/LL) – Delphis, 7 Stad Llwyn Onn, Aber-soch **– Cefnogir**
C19/1159/39/DT	Gosod ffenestr gromen cefn a chodi estyniad unllawr ar gefn yr eiddo – Delfryn, 13 Cae Du, Aber-soch **– Cefnogir**
C19/1162/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un annedd newydd – Bryn Benar, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Cefnogir**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Ymestyn Oriau Agor y Giatiau***
Nid oedd dim i'w adrodd.

ii) ***E-on – Gosod 'Smart Meter' yn y Toiledau***
Aildrefnwyd trefnu gosod y meter ar gyfer Ionawr 10fed; 'ymddangosodd' goriad y blwch ar fachyn y storfa.

b) **Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Derbyniwyd copïau, er gwybodaeth, o ohebiaethau rhwng asiant gwrthwynebwyr yr uchod a'r Adran Gynllunio. Deallwyd hefyd y gohiriwyd trafod y cais cynllunio tan fis Chwefror.

c) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel**
Ni dderbyniwyd yr ad-daliadau na gohebiaeth bellach am bori'r comin.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod yr uchod.

b) **Yr Hen Fynwent**
Yn anffodus, mae Cadeirydd yr Henaduriaeth yn yr ysbyty ac ni ellid cadarnhau dyddiad cyfarfod i drafod yr uchod.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd – Goliau**
Mae goliau newydd Cae Chwarae Aber-soch yn barod – angen eu casglu a'u gosod, ynghyd â threfnu ail-leoli rhai Cae Chwarae Mynytho.

b) **Paentio'r Offer a Lloches Bws Parciau, Mynytho**
Addawodd y paentiwr gwblhau'r uchod cyn gynted ag y gwella'r tywydd.

c) **Mainc Solar**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Glerc Cyngor Cymuned Llanfair Talhaearn yn dilyn holi faint o ddefnydd ac ati a wneir o'r un yno.

ch) **Coeden ger Cae Chwarae Aber-soch**
Ni lwyddwyd ymchwilio i berchnogaeth y ffordd ar wefan Y Gofrestrfa Tir oherwydd trafferthion cyfrifiadurol y Clerc.

[Adroddodd Cyng. Dewi W. Roberts y broliodd sawl un yr offer newydd yng Nghae Chwarae Aber-soch yn ystod y gwyliau – gofynnodd i'r Clerc gofnodi hynny.]

d) **Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) 2015**
Copi diwygiedig o'r Canllawiau ar gyfer gwerthu caeau chwarae yn unol â Rheoliadau 2015.

8. **CYFRIFON**

a) **Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2021**
Cynhelir cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cyllid Lleol yng Ngholeg Meirion Dwyfor, nos fory. Derbyniwyd gwybodaeth drafft mai targed y gymuned hon fydd £20,000.

b) **Praesept 2020 – 2021**
Penderfynwyd, yn dilyn trafodaeth, y dylid cynyddu'r praesept £5,000 a fuasai'n galluogi cyfrannu at yr Eisteddfod Genedlaethol dros gyfnod o dair blwyddyn ariannol, ynghyd ag unrhyw gostau ychwanegol a all y Cyngor eu hwynebu yn y dyfodol.

c) **Adnewyddu Ffi Diogelu Data**
Derbyniwyd gohebiaeth yr adnewyddir yr uchod ar Ionawr 31ain – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Unwaith yn rhagor ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Yr un cofnod â'r uchod – ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio nac Arweinydd y Cyngor fel yr addawodd ym mis Mehefin.

c) **Swyddog Gorfodaeth – Storio Carafanau yn Nhy'n-y-Mur, Lôn Garmon, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd cais cynllunio i gadw'r defnydd di-ganiatâd hyd yma.

ch) **Dilyn a Darganfod**
Derbyniwyd ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio ar ôl gohebu sawl gwaith i fynegi na ellid cael unrhyw ganlyniad o chwilio am ddyfarniadau cynllunio ar yr uchod ac ymholi am ystyr 'DT' ar ddiwedd ceisiadau. Eglurwyd mai 'Deiliad Tŷ (Householder Planning)' ydyw ac y cafwyd system gyfrifiadurol newydd. Ychwanegwyd hefyd bod rhaid cofrestru i gyflwyno sylwadau ac, er gwneud, ni lwyddwyd cael mynediad at y ceisiadau. Ysgrifennir i fynegi anfodlonrwydd am y diffyg gwybodaeth a hysbysu defnyddwyr am y newidiadau yn y system.

d) **Cymorth Cynllunio Cymru – Gwaith yr Arolygiaeth Gynllunio**
Cynhelir gweithdy am ddim yn Llandudno ar Ionawr 24ain – gobeithia'r Clerc ei fynychu.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion yn y Gymuned – Llinellau Melyn ar Allt Marchros**

Derbyniwyd llythyr yn hysbysu y bwriedir cyflwyno cyfyngiadau parcio ar yr uchod – cefnogwyd eisoes, gan mai'r Cyngor hwn ofynnodd amdanynt.

b) **Gwrych Islwyn, Lôn Engan, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r cais o dorri'r gwrych ond, ni ymwelwyd â'r eiddo dros y gwyliau.

c) **Gorchymyn Cau'r Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn â Maes Carafanau Pant Gwyn, Sarn Bach**
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod a ddaw i rym ar Ionawr 13eg ac y pery am dri mis ond, y gobeithir cwblhau'r gwaith o fewn chwe diwrnod ar hugain.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**
Credir y deil y swyddog o'i waith, gan na dderbyniwyd ateb oddi wrtho.

12. **TRAETHAU**

a) **Padlfyrddio ar Borth Fawr**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C19/0872/39/LL	Estyniad i annedd, ardal parcio/troi newydd a mynedfa newydd **–** 2 Tŷ'r Ysgol, Lôn China, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0996/39/LL	Ail-leoli saith carafán sefydlog ac ymestyn y safle er gwneud gwaith tirlunio a gwelliannau amgylcheddol **–** The Warren, Aber-soch - **Caniatawyd ag amodau**
C19/1023/39/LL	Codi decing dyrchafedig ar wahân **–** 2 Parc y Brenin, Cilan – **Caniatawyd ag amodau**
C19/1046/39/LL	Estyniad deulawr ochr **–** Tyddyn, Stryd Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/1070/39/DA	Diwygiad di-faterol i ganiatâd C19/0232/39/LL er tynnu linc to brig presennol a'i gyfnewid am do fflat â'i ochrau wedi cladio â llechi – Garreg Wen, Llanengan – **Caniatawyd TC yn unig**

14. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) **Dogfen Ymgynghori – Newidiadau i Ffioedd Cynllunio a Cheisiadau Cysylltiedig**
Gwybodaeth am yr ymgynghoriad a ddaw i ben ym mis Mawrth.

b) **AHNE Llŷn – Ffynnon Fyw, Mynytho**
Cynhelir diwrnod gwirfoddoli i atgyweirio'r uchod ddydd Gwener.

c) **Gwasanaethau Cyfreithiol – Cais am Drwydded Mangre dan Ddeddf Trwyddedu 2003: Sandbar, Y Warren, Aber-soch**
Copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth a anfonwyd at yr ymgeiswyr i ganiatáu'r uchod.

ch) **Scottish Power – Cyflenwad Trydan Ciosg Llanengan**
Copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth yn nodi y methwyd â gweithio ar yr uchod oherwydd bod rhwystr ar y ffordd... Ni wnaed dim pellach er dweud y bwriedid ailymweld ar Ragfyr 27ain.

d) **OWL Crime Watch North Wales – Ymgynghoriad**
Newyddlen yr uchod am gadw cymunedau'n ddiogel – rhy ddrud ac amherthnasol i'r ardal hon.

dd) **Clwb Golff Aber-soch – Llythyr Cefnogaeth i Gais am Nawdd**
Anfonwyd llythyr cefnogaeth i'r cais am nawdd i wella'r cyfleusterau newid yn y Clwb.

e) **Cyngor Tref Porthmadog - Gwasanaeth Bysiau Annigonol i Ysbyty Alltwen, Tremadog**
Copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth at yr Adran Drafnidiaeth yn mynegi pryder am y trafferthion a wyneba cleifion i gyrraedd apwyntiadau yn Ysbyty Alltwen.

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Ionawr (Rh/S 002266) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Casglwr Trethi – £5.61 (Rh/S 002265 – Talu Wrth Ennill)
b) E-on – £20.35 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)
c) Comisiwn Diogelu Data – £35.00 (D/U – Ffi Diogelu Data)

Derbyniadau
a) Toiledau – £32.10 (Tâl Mynediad – £2.00, £19.80, £10.30)
b) Gwaith Coffaol Hefin – £160.00 (Carreg Fedd Newydd)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Chwefror 12fed, 2020 am saith o'r gloch

CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Ionawr 8fed, 2020

Mr. Dai Davies,
Ysgrifennydd Clwb Golff Aber-soch,
Lôn Golff,
Aber-soch,
PWLLHELI,
Gwynedd.
LL53 7EY

Annwyl Mr. Davies,

Llythyr Cefnogaeth i gais Clwb Golff Aber-soch am Nawdd gan Groeso Cymru

Pleser yw cael ysgrifennu ar ran Cyngor Cymuned Llanengan i gefnogi cais y Clwb Golff am nawdd i wella ac ehangu'r cyfleusterau newid bwriadedig. Byddant o fudd mawr i aelodau'r Clwb a thrigolion lleol ond, yn fwyaf arbennig i'r ymwelwyr a ddaw i'r pentref.

Bu cynnydd aruthrol yn nifer y cerddwyr a ddaw i'r ardal yn dilyn agor Llwybr Arfordir Cymru a chan ei fod yn mynd trwy dir y Clwb Golff, byddai cyfleusterau newydd o fantais a budd i bawb.

Gan ddymuno'n dda i chi yn eich cais, gan hyderu y byddwch yn llwyddiannus.

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Chwefror 4ydd, 2020

Annwyl Aelod,

Gwysir chi i fod yn bresennol yng Nghyfarfod Misol y Cyngor **nos Fercher, Chwefror 12fed, 2020** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion – Ionawr 8fed, 2020
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**:
   i) 5a) Toiledau Cyhoeddus
   ii) 5b) Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros
   iii) 5c) Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel a Chais i'w Ffensio
7. **Mynwent** – Prisiau Claddu; Yr Hen Fynwent
8. **Caeau Chwarae** – Goliau**;** Mainc Solar; Coeden ger Cae Chwarae Aber-soch
9. **Cyfrifon –** Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol; Canllaw Syml ULlC ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref Bach i Ganolig – Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol; Swyddfa Archwilio Cymru: a) Datganiad i'r Wasg: Cyfrifon wedi cael Barn Amodol mewn Traean o'r Cynghorau Tref a Chymuned, b) Ymgynghoriad ar Drefniadau Archwilio yn y Dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol yng Nghymru; Biniau/Trethi Tai Haf
10. **Materion Cynllunio** – Materion yn y Gymuned/Ymholiadau/Gorfodaeth; Cytiau Glan Môr; Dilyn a Darganfod; Ciosg BT; Gorfodaeth Yr Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch
11. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Materion yn y Gymuned; Gorchymyn Cau'r Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn â Maes Carafanau Pant Gwyn, Sarn Bach
12. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau
13. **Traethau –** Padlfyrddio ar Borth Fawr
14. **Gohebiaeth**:

a) ***Un Llais Cymru (ULlC)*** – Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor; SDCau – Diwygio Arfaethedig i Ddau Orchymyn Draenio Cynaliadwy; Ymateb ULlC i Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru); Hyfforddiant;
b) Mabon ap Gwynfor – Diweddariad Ymgyrch Canolfan Cancr
c) Test Strike UK Ltd. – Profi Corn Tanrallt
ch) Newyddlen SLCC - Cyfarwyddiadau Mynediad at Gynnwys Gwefannau'r Llywodraeth
d) Hunaniaith – Mewn Cymeriad 'Kate'
dd) Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) - Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned ar y Còd Ymddygiad i Aelodau

15. Dyfarniadau Cynllunio
16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
17. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Mawrth 12fed, 2020

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD CHWEFROR

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C19/1180/39/DT	Estyniadau ac addasiadau i dŷ presennol, gan gynnwys codi lefel y to, estyniad llawr cyntaf a chreu balconi – Tŷ Uchaf, Lôn Wilis, Mynytho **– Cefnogir**
2	C19/1204/39/LL	Creu chwe fflat ac un i'w ddefnyddio fel llety ar gyfer Rheolwr. Gwaith i gynnwys dymchwel estyniad ochr unllawr presennol i westy gwag, codi estyniad tri llawr i'r gwesty gwag a'i drosi'n bedwar fflat hunan gynhaliol, dymchwel yr annedd bresennol yng nghefn y safle a chodi adeilad deulawr newydd â thri fflat hunan gynhaliol yn lle'r annedd a ddymchwelwyd **–** Venetia, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a chan fod digon ohonynt ar gael yng nghanol y pentref, ynghyd a dechrau cynsail o droi tai cyfagos yn fflatiau hefyd. Mynegwyd pryder am fynediad i'r briffordd, gan ei fod ger cyffordd brysur yn arbennig yn ystod y tymor gwyliau. Hefyd, mae posibilrwydd y buasai gan bob fflat ddau gar (ac, efallai, gwch/*jetski*) ar safle bychan. Gallent amharu ar gymdogion o ran sŵn a phreifatrwydd/goredrych. Buasai'n well ei gadw'n westy, gan fod cyn lleied ohonynt yn y pentref.**
3	C20/0006/39/DT	Dymchwel strwythurau presennol ac adeiladu estyniad unllawr, ynghyd ag addasiadau mewnol ac allanol i'r annedd bresennol – Tŷ Gwyn, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau eisoes**
4	C20/0008/39/LL	Trosi cyn-gapel yn uned wyliau – Capel Nant, Nanhoron **– Gwrthwynebir oherwydd mae angen tŷ fforddiadwy/ angen lleol yn hytrach nag uned wyliau yn yr ardal. Mynegwyd pryder am yr effaith a gawsai o ran sŵn/ goredrych a phreifatrwydd y cymdogion yn y Tŷ Capel oherwydd agosatrwydd y ddau adeilad o gofio pam yr adeiladwyd hwy yn wreiddiol.**
5	C20/0016/39/LL	**(Cais Ôl-weithredol)** Newid defnydd rhan o gae pori amaethyddol ar gyfer storio carafanau teithiol – Ty'n-y-Mur Camping Site, Lôn Garmon, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd y gall ddechrau cynyddu maint y maes carafanau a'r storfa, gan nad oes sicrwydd am y niferoedd a gedwir/fwriedir eu cadw ar y safle. Maent yn weledol o'r briffordd, Pen y Gaer a Phont Llangian sydd yn rhan o AHNE Llŷn.**
6	C20/0033/39/DT	Dymchwel modurdy/storfa atodol bresennol a chodi estyniad unllawr yn ei le, gwelliannau i'r fynedfa gerbydol a chreu man troi a pharcio – Bwthyn, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir**
7	C20/0035/39/DT	Estyniad unllawr â tho brig, codi to brig dros yr estyniad unllawr presennol a gosod ffenestr do newydd mewn llethr to presennol – Tŷ'n Ffos Isaf, Llanengan **– Cefnogir**
8	C20/0037/39/DT	Estyniad llawr cyntaf a newidiadau allanol – Sea Leys, Bwlchtocyn **– Cefnogir**

9	C20/0060/39/AC	Diwygio Amod 6 o Ganiatâd Cynllunio C14/1184/39/LL er mwyn cadw carafán statig ar y safle am ddeunaw mis ychwanegol i'w defnyddio at ddibenion preswyl wrth gwblhau'r gwaith ar y tŷ fforddiadwy newydd a ganiatawyd - Machlud Haul, Llanengan **– Gwrthwynebir oherwydd cwblhawyd y tŷ ers peth amser ac mae'r ymgeisydd yn byw ynddo. Mynegwyd pryder am y cyfnod – gallai ofyn am estyniad pellach ar ddiwedd hwnnw.**
10	C20/0061/39/LL	Dymchwel ac amnewid cwt traeth presennol – Cwt Glan Môr 3, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn fwy na'r cwt gwreiddiol – mae'n ddeulawr ac uwch. [Disgwylir ateb ers dros flwyddyn oddi wrth Arweinydd y Cyngor a'r Adran Gynllunio i bryder y Cyngor hwn am y newidiadau/ailadeiladu cytiau mwy fel y cais hwn.]**
11	C20/0085/39/DT	Estyniad cefn a mân newidiadau – Bryn Ochor, 10 Maes Awel, Aber-soch **– Cefnogir**
12	C20/0087/39/DT	Estyniad unllawr ar gefn yr eiddo – Rushmere, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir**

CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

CYNHELIR CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
Nos Fercher, Chwefror 12fed, 2020
yng
Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan
am saith o'r gloch

The Council's Monthly Meeting
will be held on
Wednesday, 12th February, 2020
at
Canolfan Gymdeithasol Llanengan
at
7:00 p.m.